**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/KW/4635/18

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

10 Ionawr 2019

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2018 yn dilyn gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn craffu ar Adroddiad Blynyddol 2017-18 Estyn.

Nodaf fod y pwyllgor wedi gofyn am ragor o wybodaeth am feysydd penodol a gododd yn ystod eich trafodaethau ar 6 Rhagfyr 2018 gyda Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi a'i Gyfarwyddwyr Strategol.

Efallai eich bod yn gwybod y bydd Adroddiad Blynyddol Estyn 2017-18 yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Chwefror 2019. O ganlyniad, rwy'n credu y byddai'n fwy priodol ymateb i'r cwestiynau'n ymwneud â chanfyddiadau'r adroddiad a godwyd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystod y ddadl. Fel arall, byddwn yn fodlon mynychu cyfarfod gyda'r Pwyllgor ar ôl y ddadl er mwyn ymateb i unrhyw gwestiynau penodol.

Yn eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr, mae'r Pwyllgor yn gofyn cwestiynau sy'n ychwanegol i ganfyddiadau Adroddiad Blynyddol Estyn 2017-18.

O safbwynt eich cwestiynau'n ymwneud ag adolygiad yr Athro Donaldson o Estyn, 'Arolygiaeth Dysgu', rydych chi'n gofyn pryd y byddaf yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hwn.

Cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig ar 7 Mehefin 2018 yn croesawu'r adroddiad. Comisiynwyd yr adolygiad o Estyn gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi er mwyn canfod goblygiadau ein diwygiadau addysg ar gyfer gwaith yr Arolygiaeth yn y dyfodol, ac fe es ati i gefnogi'r adolygiad. Dywedais ar y pryd y byddwn yn gweithio gydag Estyn a'r system addysg yn ehangach i ystyried argymhellion yr adroddiad a'u goblygiadau ar gyfer ein proses o gyflwyno diwygiadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae llawer o argymhellion yr adroddiad yn cefnogi ac yn cyfeirio at y diwygiadau addysg sy'n parhau i fynd rhagddynt. Maent yn helpu i hwyluso newidiadau er mwyn sicrhau cysondeb â'r diwygiadau, ac yn cynnig rhai newidiadau i swyddogaeth a dulliau gweithio Estyn a fydd yn datblygu cryfderau'r Arolygiaeth. Er mai mater i Estyn yw'r adroddiad a'i argymhellion yn y pen draw, mae angen ystyried rhai o'r argymhellion ar y cyd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y system addysg er mwyn eu datblygu, gan gynnwys y cynnig i wahardd y broses o arolygu ysgolion yn rhannol am gyfnod.

Mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried effaith yr argymhellion hyn. Mae fy swyddogion yn gweithio gydag Estyn i wneud hyn. Cyn bod unrhyw un o'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith, cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ac anffurfiol gyda rhanddeiliaid er mwyn clywed eu barn ar y cynigion sydd wedi'u hargymell, a phenderfynu ar ffordd ymlaen. Byddaf yn rhoi gwybod i chi ac eraill sut mae'r gwaith hwn yn dod yn ei flaen.

Hefyd, mae'r Pwyllgor wedi holi am y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â datblygu Fframwaith Asesu a Gwerthuso Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r proffesiwn a'n rhanddeiliaid allweddol yn yr haen ganol er mwyn datblygu Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd i helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Mae'r gwaith parhaus o ddiwygio cymwysterau a'r system addysg yn rhan bwysig o'n Cenhadaeth Genedlaethol i godi safonau ein holl bobl ifanc, ac ehangu cyfleoedd ar eu cyfer. Un elfen o hyn yw'r trefniadau Gwerthuso a Gwella, a fydd yn seiliedig ar hunanwerthuso cadarn a chyson i ysgogi gwelliant. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael diwedd mis Ionawr.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag Estyn a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd er mwyn datblygu pecyn cymorth hunanwerthuso cenedlaethol ar gyfer dysgu a gwella mewn ysgolion. Byddwn yn cyhoeddi'r Fframwaith Asesu a Gwerthuso drafft yn ei gyfanrwydd ym mis Ebrill at ddibenion adborth a gwella.

Yn olaf, mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon am y sefyllfa mewn ysgolion mewn perthynas â llesiant, ac mae wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod hyfforddiant yn ymwneud ar lesiant emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion yn rhan o addysg gychwynnol i athrawon a chymorth parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol.

Ar hyn o bryd, rydym yn newid sut mae addysg gychwynnol i athrawon yn cael ei darparu yng Nghymru. Un o elfennau allweddol ein hagenda ar gyfer diwygio yw cyflwyno dull mwy cadarn o achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon, wedi'i reoli gan Gyngor y Gweithlu Addysg, fel bod modd i'r proffesiwn bennu ei ofynion mynediad ei hun. Dyddiad cau'r broses achredu ar gyfer rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon o fis Medi 2019 ymlaen oedd mis Mehefin 2018. Dangosodd pedwar darparwr addysg gychwynnol i athrawon y newid sylweddol sydd ei angen, gyda darpariaeth o ansawdd uchel yn denu'r bobl iawn â'r sgiliau a'r cymwysterau iawn a dawn i addysgu i'r proffesiwn.

Cyhoeddwyd ein meini prawf achredu newydd ym mis Mawrth 2017, sy'n gofyn i ddarparwyr sydd newydd eu hachredu gynllunio a darparu cyrsiau sy'n gyson â phedwar amcan cwricwlwm newydd i Gymru ac yn berthnasol i'r chwe maes dysgu a phrofiad er mwyn datblygu athrawon y dyfodol a diwallu anghenion dysgwyr o bob math. Mae'n rhaid i bob athro yng Nghymru ddeall a bod yn ymwybodol o lesiant a datblygiad personol, emosiynol a chymdeithasol dysgwyr o bob math. Bydd ein Partneriaethau Addysg Gychwynnol i Athrawon newydd yn datblygu dulliau o gynorthwyo darpar athrawon i reoli eu llesiant eu hunain, yn ogystal â'u gallu i gyfrannu at lesiant disgyblion dan eu gofal. Bydd y broses o

gyflwyno’r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn cynorthwyo athrawon dan hyfforddiant i gefnogi dysgwyr yn y maes hwn.

Lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn ffurfiol yn ystod Hydref 2018. Mae’r dull hwn yn canolbwyntio ar ddygwyr ac mae’n cynnwys pedwar amcan y cwricwlwm newydd. Nod y dull yw ymateb i flaenoriaethau ar lefel ysgol, lefel leol a lefel genedlaethol, ac mae’n cwmpasu taith ddysgu unigol ymarferwyr o bob math. Ers mis Hydref 2018, mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wedi mynd ati i ymgysylltu â fframwaith y cwricwlwm newydd trwy ymholiadau proffesiynol gyda chymorth sefydliadau addysg uwch ledled Cymru. Mae’r ymholiadau hyn yn dechrau canolbwyntio ar oblygiadau sylweddol y Meysydd Dysgu a Phrofiad ar gyfer addysgu a dysgu, a sut y bydd angen datblygu sgiliau’r gweithlu yn ehangach. Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cefnogi ymholiadau proffesiynol yn ymwneud â Maes Profiad a Dysgu Iechyd a Llesiant hyd at ddiwedd tymor Haf 2019 yn y lle cyntaf. Bydd y goblygiadau uniongyrchol ar gyfer dysgu proffesiynol yn cael eu rhannu’n ehangach maes o law, wrth i arloeswyr dysgu proffesiynol ddechrau dwysau eu hymholiadau proffesiynol yn ystod tymor y Gwanwyn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg